**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Gweinidog wedi'i gael mewn perthynas â chynllun brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ41872)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog esbonio a benderfynodd wneud y cynllun brecwast mewn ysgolion yn ddewisol yn hytrach na'n orfodol ar ôl cael cyngor cyfreithiol ar y mater. (WAQ41863)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oedd y cyngor cyfreithiol a gynigiwyd ar y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion yn ystod 2004 yn mynd yn groes i ymrwymiad maniffestio'r llywodraeth yn 2003. (WAQ41883)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw hyd cyfartalog taith disgyblion ysgol gynradd o'u cartref i'w hysgol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ41875)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw hyd cyfartalog taith disgyblion ysgol uwchradd o'u cartref i'w hysgol ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ41876)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael gyda'r heddlu ynghylch y gwaharddiad ar hela a'i effaith yng Nghymru, ac a wnaiff roi manylion y trafodaethau hynny. (WAQ41865)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad ar TAN 8: Ynni Adnewyddadwy. (WAQ41895)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar nifer y staff sy'n gweithio yn yr is-adrannau canlynol yng Nghaerdydd; yr Is-adran Bwyd a Ffermio, y Gangen Polisi Cefn Gwlad ac Arfordir, y Gangen Gwarchod Natur, yr Is-adran Polisi Gwledig, Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAPM). (WAQ41925)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** Pa gamau a gymerwyd i ostwng y pwysau ar y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. (WAQ41856)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael eu gostwng ymhellach. (WAQ41857)

**Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** Pa systemau sydd ar waith ar hyn o bryd i sifftio cleifion

